Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith




# Atebolrwydd Atgyweirio Cangell a'I Gofrestu

## Crynodeb o'r Papur Ymgynghori

PROSIECT COMISIWN Y GYFRAITH AR ATEBOLRWYDD ATGYWEIRIO CANGELL A'I GOFRESTRU

| | | |
|---|---|---|
| | **Pwy ydym ni?** | Mae Comisiwn y Gyfraith Lloegr a Chymru yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan statud i wneud argymhellion i'r Llywodraeth i ddiwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. |
| | **Beth rydym yn ei wneud?** | Rydym yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ein cynigion dros dro i ddiwygio'r gyfraith sy'n llywodraethu atebolrwydd atgyweirio cangell a chofrestru tir. |
| | **Beth mae'r prosiect yma amdano?** | Mae ein prosiect am atebolrwydd atgyweirio cangell – sydd yn rhwymedigaeth i atgyweirio cangell eglwys blwyf a allai effeithio ar rai tirfeddianwyr. |
| | **Ble allai ffeindio'r papur ymgynghori?** | Mae'r papur ymgynghori llawn ynghyd â dogfennau eraill, i'w gweld yn https://lawcom.gov.uk/project/chancel-repair-liability-and-registration/. |
| | **Beth sy'n digwydd nesaf?** | Ar ôl adolygu'r holl ymatebion, byddwn yn penderfynu ar ein hargymhellion terfynol ar gyfer diwygio'r gyfraith, a fydd yn cael eu cyhoeddi mewn adroddiad terfynol. |

## Y CRYNODEB HWN

Mae'r Crynodeb hwn yn egluro beth mae'r prosiect amdano ac yn gosod allan y materion craidd y mae'r papur ymgynghori yn ymwneud â nhw. Dydy hi ddim yn crynhoi popeth sydd yn y papur ymgynghori. Gellir dod o hyd i drafodaeth fanwl a'n holl gynigion diwygio yn y papur ymgynghori llawn.

Lle rydym yn sôn am ein papur ymgynghori yn y Crynodeb hwn, rydym yn cyfeirio at ein papur ymgynghori llawn ar Atebolrwydd Atgyweirio Cangell a'i Gofrestru.

## Atebolrwydd Atgyweirio Cangell a'i Gofrestru

Rydym yn ymgymryd â phrosiect ar atebolrwydd atgyweirio cangell a'i gofrestru, ac wedi cyhoeddi papur ymgynghori.

Mae'r materion a drafodir yn y papur ymgynghori yn gymhleth yn hanesyddol ac yn gyfreithiol. Mae croeso i ddarllenwyr ddarllen y dadansoddiad llawn trwy ddechrau ar ddechrau'r papur ymgynghori a symud ymlaen yr holl ffordd drwodd. Ond os yw'n well ganddynt ddarllen fersiwn fyrrach a symlach o'n dadansoddiad hanesyddol a chyfreithiol, fe'u gwahoddir i ddechrau darllen o Bennod 6 y papur ymgynghori.

Mae'r crynodeb yn y ddogfen hon yn grynodeb pellach o'n gwaith. Mae'r papur ymgynghori llawn ar gael ar ein gwefan yn https://lawcom.gov.uk/project/chancel-repair-liability-and-registration/.

Mae atebolrwydd atgyweirio cangell ("CRL") yn rhwymedigaeth i atgyweirio cangell eglwys blwyf pryd bynnag y bydd yn dadfeilio. Y "gangell" yw pen dwyreiniol yr eglwys, lle mae'r allor i'w chael. Yn aml, caiff ei gwahanu oddi wrth brif gorff yr eglwys gan ris

Yn hanesyddol, yng Nghymru a Lloegr, yr offeiriad plwyf oedd â'r rhwymedigaeth i atgyweirio'r gangell. Y plwyfolion oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw gweddill yr eglwys.

Mae CRL ynghlwm wrth y rhan fwyaf o eglwysi plwyf a adeiladwyd cyn y Diwygiad Protestannaidd, sef y toriad rhwng Eglwys Loegr a'r Eglwys Gatholig Rufeinig yn ystod teyrnasiad Harri VIII.




*Llun o gangell wedi'i gymryd o brif gorff yr eglwys.*

## Effaith Ariannol Atebolrwydd Agyweirio Cangell

Gall costau atgyweirio cangell eglwys fod yn sylweddol. Enghraifft o hynny yw achos sy'n ymwneud â Mr a Mrs Wallbank a thir ym mhlwyf Aston Cantlow, Swydd Warwick.

***Cyngor Plwyf Eglwysig Aston Cantlow v Wallbank*[1]**

Mr a Mrs Wallbank oedd perchnogion Fferm Glebe ym mhlwyf Aston Cantlow, a etifeddodd Mrs Wallbank gan ei rhieni ym 1974. Roedd Fferm Glebe yn cynnwys tua 180 erw o dir, ac roedd rhywfaint ohono'n destun "atgyweiriadau i gangell Eglwys Aston." Mae Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr yn Aston Cantlow yn dyddio'n ôl i'r 13eg ganrif ac mae'n adnabyddus fel yr eglwys lle priododd rhieni William Shakespeare, John Shakespeare a Mary Arden, ym 1557.

Erbyn 1994, roedd cangell yr eglwys mewn cyflwr gwael a phenderfynodd y Cyngor Plwyf Eglwysig arfer ei hawliau yn erbyn y rhai oedd yn atebol. Cafodd y teulu Wallbank eu herlyn am £95,260.84 yn wreiddiol ym 1994. Ymladdodd y teulu Wallbank yr hawliad drwy'r Uchel Lys, y Llys Apêl, a Thŷ'r Arglwyddi (a elwir bellach y Goruchaf Lys). Fe wnaethon nhw ddadlau fod gorfodi'r CRL yn torri eu hawl i eiddo preifat o dan Erthygl 1 o Brotocol Cyntaf yr ECHR a Deddf Hawliau Dynol 1998. Fe wnaethon nhw golli.

Aseswyd y bil atgyweirio terfynol gan yr Uchel Lys yn 2007 i fod yn £186,969.50 (ynghyd â TAW). Roedd yn ofynnol i'r Wallbanks hefyd dalu tua £250,000 mewn costau cyfreithiol. Yn y diwedd, fe wnaethon nhw werthu eu cartref. Er mwyn sicrhau bod yr eiddo yn werthadwy ac na fyddai perchnogion dilynol yn atebol, gwariodd y Wallbanks £37,000 pellach i brynu'r atebolrwydd.

Mae bodolaeth CRL hefyd yn ychwanegu at gostau trosglwyddo eiddo yn gyffredinol.

(1) Wrth ddelio â phrynu tir, mae llawer o drawsgludwyr yn trefnu i chwiliad atgyweirio cangell gael ei gynnal. Mae'r chwiliadau hyn yn cynnwys gwirio cofnodion plwyf i asesu a allai'r tir sy'n cael ei gaffael fod yn destun CRL.

Rydym yn deall bod chwiliadau fel arfer yn costio £30 i £40, ond gallant gostio mwy na hynny.

(2) Yn ogystal, neu yn lle hynny, mae trawsgludwyr yn trefnu i yswiriant atebolrwydd atgyweirio cangell gael ei gymryd mewn llawer o drafodion. Gall yswiriant CRL fod cyn lleied â £15, ond bydd y pris yn amrywio yn dibynnu ar asesiad risg yr yswiriwr ac a gafwyd chwiliad CRL.

Er y gellir ystyried bod costau chwiliadau atgyweirio cangell ac yswiriant ar gyfer un trafodiad, yn gyffredinol, yn gymedrol, maen nhw’n ychwanegu miliynau o bunnoedd bob blwyddyn at gostau trafodion eiddo ledled Cymru a Lloegr.

## Y Broblem

Ar 13 Hydref 2013, bu newid yn y gyfraith a effeithiodd ar CRL a thir cofrestredig. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, peidiodd CRL â bod yn "fuddiant gor-redol" o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 ("yr LRA 2002”).

Y farn oedd, o 13 Hydref 2013 ymlaen, os nad oedd CRL wedi'i restru mwyach fel buddiant gor-redol, y byddai LRA 2002 yn berthnasol iddo fel y mae'n berthnasol i fuddiannau mewn tir yn gyffredinol. Y farn oedd y byddai angen amddiffyn CRL trwy gofnodi hysbysiad yn y gofrestr tir er mwyn iddo fod yn orfodadwy yn erbyn prynwr tir cofrestredig.

**Deddf Cofrestru Tir 2002** – Yr LRA 2002 yw'r statud sy'n llywodraethu tir cofrestredig yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Mae'n llywodraethu'r gofrestr tir, sy'n anelu at gofnodi holl fanylion perchnogaeth tir ledled Cymru a Lloegr.

**Tir Cofrestredig** – Tir a’i berchnogaeth sydd wedi’i gofrestru ar y gofrestr tir, a gynhelir gan Gofrestrfa Tir EF.

**Buddiant Gor-redol** – Yng nghyd-destun y drefn gofrestru tir, buddiant gor-redol yw hawl sy'n effeithio ar dir cofrestredig ac sy'n rhwymo prynwyr y tir yn awtomatig hyd yn oed os nad yw'r hawl wedi'i gofrestru.

Fodd bynnag, mae'r gyfraith sy'n llywodraethu CRL yn aneglur ac yn ansicr. Gall fod amheuon ynghylch a yw’r LRA 2002 yn berthnasol i CRL yn y ffordd a ddisgwylid. Er nad yw CRL bellach yn fuddiant gor-redol, mae prynwyr tir yn dal i gael chwiliadau atgyweirio cangell neu yswiriant atgyweirio cangell yn rheolaidd, hyd yn oed lle nad oes atebolrwydd wedi'i gofrestru yn erbyn y teitl.Archwilir yr ansicrwydd hwn yn y gyfraith ymhellach ym Mhennod 5 o'r papur ymgynghori.

### Hanes Atebolrwydd Atgyweirio Cangell

Yn hanesyddol, dyletswydd bersonol ar fath o offeiriad plwyf a elwid yn “rheithor” (neu “berson”) oedd CRL. Roedd rheithor yn offeiriad plwyf a gafodd eiddo i ddarparu bywoliaeth ac i gynnal ei waith yn y plwyf. Roedd yr eiddo hwn yn cynnwys preswylfa, darnau o dir (a elwir yn “dir llan”), a hawl i gasglu “degwm” (math o dreth eglwysig sy'n cynnwys cymryd degfed ran o gynnyrch tir yn y plwyf). Roedd yn ofynnol i'r rheithor ddefnyddio'r elw o'r eiddo hwn i gadw cangell yr eglwys mewn cyflwr da. Gelwir bywyd crefyddol rheithor – y swydd grefyddol ynghyd â'r eiddo ategol – yn “reithoriaeth”.

Cyn y Diwygiad Protestannaidd roedd llawer o reithordai yng Nghymru a Lloegr wedi cael eu caffael gan fynachlogydd a thai crefyddol eraill. Roedd y mynachlogydd yn mwynhau'r elw o dir a degwm y rheithoriaid, ond roeddent hefyd wedi'u rhwymo gan y CRL.

Yn ystod y Diwygiad Protestannaidd, diddymodd y Senedd y rhan fwyaf o'r mynachlogydd yng Nghymru a Lloegr a throsglwyddodd eu heiddo i'r Goron. Roedd y trosglwyddiad hwn yn cynnwys y bywoliaethau crefyddol, neu'r rheithoriaid, a oedd yn eiddo i'r mynachlogydd.

Rhoddodd y Goron lawer o'r rheithoriaid hyn i bobl leyg (personau nad oeddent yn aelodau o'r clerigwyr). Gelwid y derbynwyr hyn yn "reithoriaid lleyg". Gan nad oeddent yn glerigwyr, ni allent gyflawni rôl offeiriad plwyf ac roedd yn ofynnol iddynt benodi dirprwyon i weinidogaethu i'r plwyf.


Gelwid y dirprwyon hyn yn "ficeriaid". Ond roedd gan reithoriaid lleyg lawer o'r hawliau a'r rhwymedigaethau a oedd wedi perthyn i'r mynachlogydd ac i offeiriaid plwyf o'u blaenau, gan gynnwys CRL. Yn bwysicaf oll, yn wahanol i reithoriaid “ysbrydol” (rheithoriaid oedd yn aelodau o’r clerigwyr), roedd rheithoriaid lleyg yn rhydd i werthu neu rannu eu heiddo rheithoriaid.

Effeithiwyd ar lawer o reithoraiethau lleyg gan y Deddfau Cau Tir. Erbyn yr 20fed ganrif, roedd llawer o’r tir a oedd wedi bod yn eiddo i reithoriaid lleyg wedi’i rannu a’i werthu i berchnogion ar wahân yn y ffordd hon. Mae cwestiynau cyfreithiol anodd ynghylch yr hyn a ddigwyddodd i CRL pan rannwyd rheithoriaethau lleyg. Rydym yn archwilio'r cwestiynau hyn ym Mhenodau 3 a 4 o'r papur ymgynghori.

Bu i natur rheithoriaethau lleyg dros y canrifoedd yn dilyn y Diwygiad Protestannaidd. Cafodd llawer iawn o'r tir comin a fwynhawyd gan gymunedau yng Nghymru a Lloegr ei amgáu gan gyfres o Ddeddfau Amgáu o'r 17eg ganrif i'r 19eg ganrif. Cafodd hawliau rheithoriaid lleyg dros dir comin (gan gynnwys hawliau i ddegwm) eu disodli gan grantiau tir. Yna diddymwyd y degwm gan gyfres o Ddeddfau, gan ddechrau gyda Deddf y Degwm 1836.

**Amgáu** – Roedd y Deddfau Amgáu yn gyfres o Ddeddfau o'r 17eg i'r 19eg ganrif a wnaeth breifateiddio (amgáu) tiroedd comin ledled Cymru a Lloegr.[2]

*Strwythyr rheithordy*




## Hanes Cofrestru Atebolrwydd Atgyweirio Cangell

Am fwy na 100 mlynedd, cafodd CRL ei drin fel buddiant gor-redol o dan statudau cofrestru tir. (Fe'i rhestrwyd gyntaf fel buddiant gor-redol yn Neddf Trosglwyddo Tir 1897.) Newidiodd hyn gyda Deddf Cofrestru Tir 2002, ond mae hanes sut y daeth Deddf Cofrestru Tir 2002 i ddelio â CRL yn gymhleth.

O 1995 ymlaen, dechreuodd gweithgor ar y cyd rhwng Comisiwn y Gyfraith a Chofrestrfa Tir EF adolygu sut y gellid disodli a diweddaru Deddf Cofrestru Tir 1925 gan Ddeddf newydd. Arweiniodd y prosiect hwn at gyhoeddi adroddiad a bil drafft (Cofrestru Tir ar gyfer yr 21ain Ganrif: Chwyldro Trawsgludo) ym mis Gorffennaf 2001.[3]

Ym mis Mai 2001, ddau fis cyn cyhoeddi'r adroddiad, rhoddodd y Llys Apêl farn yn *Cyngor Plwyf Eglwysig Aston Cantlow v Wallbank*.[4] Penderfynodd y Llys Apêl fod gorfodi CRL yn anghyfreithlon (fel torri hawl y Wallbanks i fwynhau eiddo'n rhydd o dan Erthygl 1 o Brotocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol). O ganlyniad, ni ddywedodd adroddiad 2001 ddim am CRL. Ni ddywedodd yr LRA 2002, a weithredodd y bil a gyhoeddwyd gyda'r adroddiad, ddim am CRL chwaith.

Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2003, fe wnaeth Tŷ'r Arglwyddi wrthdroi penderfyniad y Llys Apêl, ac ail-ymddangosodd yr angen i fynd i'r afael â CRL.[5] Nid oedd Deddf Cofrestru Tir 2002 wedi dod i rym eto. O ganlyniad, gwnaeth yr Arglwydd Ganghellor orchymyn ym mis Medi 2003 a ddiwygiodd yr LRA 2002.[6] Nododd y gorchymyn y byddai CRL yn parhau i fod yn fuddiant gor-redol tan 13 Hydref 2013. Ond ni wnaeth y gorchymyn unrhyw newidiadau eraill i sicrhau y byddai CRL yn gofrestradwy o dan yr LRA 2002 ar ôl y dyddiad hwnnw.



**1537-1547**

**Diddymu'r mynachlogydd**
Y Goron yn atafaelu rheithor-dai a'u gwerthu i dirfeddianwyr preifat.

**1603-1876**

**Deddfau Amgáu**
Preifateiddio tir comin, a rhoi lleiniau tir i reithoriaid lleyg fel iawndal am hawliau degwm a ddiddymwyd.

**1836-1936**

**Diddymu'r degwm**
Yn dilyn cyfres o Ddeddfau Degwm, cafodd degwm ei gyfnewid yn rhent daliadau degwm, a gawsant eu did-dymu wedi hynny.

**1862**

**Deddf y Gofrestrfa Tir 1862**
Creu'r system gofrestru tir.

**1897**

**Deddf Trosglwyddo Tir 1897**
Rhestru CRL gyntaf fel "buddiant gor-redol".

**1925**

**Deddf Cofrestru Tir 1925**
CRL yn parhau i gael ei re-stru fel "buddiant gor-redol."

**1932**

**Deddf Atgyweirio Cangell 1932**
Mae'r Ddeddf yn caniatáu gor-fodi CRL yn y llysoedd sirol, gan ddileu awdurdodaeth y llysoedd eglwysig.

**Mai 2001**

***Wallbank v Aston Cantlow PCC* [2001] EWCA Civ 713**
Mae'r Llys Apêl yn penderfynu nad oes modd gorfodi'r CRL.

**Gorff 2001**

**Bil Cofrestru Tir**
Mae Comisiwn y Gyfraith a Chofrestrfa Tir EF yn cyhoeddi bil drafft ar gofrestru tir nad yw'n cyfeirio at CRL.

**Chwef 2002**

**Deddfiad Ddeddf Cofrestru Tir 2002**
Mae'r Ddeddf yn gweithredu argymhellion Adroddiad 2001 ac nid yw'n cyfeirio at CRL.

**Mehefin 2002**

***Wallbank v Aston Cantlow PCC* [2003] UKHL 37**
Tŷ'r Arglwyddi yn dyfarnu bod CRL yn orfodadwy, gan wrthdroi penderfyniad y Llys Apêl.

**Medi 2003**

**Gorchymyn LRA 2002 (Darpariaethau Trosglwyddo) (Rhif 2) 2003**
Diwygio'r LRA 2002 i gynnwys CRL fel buddiant gor-redol am ddeng mlynedd tan 13 Hydref.

## Natur Gyfreithiol Atebolrwydd Atgyweirio Cangell

Y cyngor eglwysig plwyfol lleol ("PCC") yn pob plwyf yw'r corff eglwysig sydd â'r awdurdod i orfodi CRL. Yn dilyn achos cyfreithiol ym 1955,[7] credir yn gyffredinol, os yw person yn prynu darn o dir a oedd gynt yn eiddo i reithordy, ei fod yn dod yn rhwym yn awtomatig i CRL.

Mae CRL yn atebolrwydd personol ac unigol.[8]

(1) Mae'r atebolrwydd yn bersonol i berchennog y tir: nid yw wedi'i gyfyngu i werth tir y tirfeddiannwr. Yn gyfreithiol, gall cyngor eglwysig plwyfol ofyn i berson dalu mwy am atgyweiriadau cangell nag y mae eu heiddo'n werth.

(2) Mae'r atebolrwydd yn unigol: os yw llawer o dirfeddianwyr i gyd yn atebol i atgyweirio'r un gangell, gall cyngor yr eglwys blwyfol erlyn unrhyw un ohonynt am y swm llawn. Gall y tirfeddiannwr y mae'n ofynnol iddo dalu wedyn geisio adennill cyfraniad gan y tirfeddianwyr eraill yr effeithir arnynt.

Fodd bynnag, nid yw natur gyfreithiol CRL yn glir. Ym Mhenodau 3 a 4, mae'r papur ymgynghori yn archwilio rhai amheuon ynghylch a yw CRL yn rhwymo unrhyw un sy'n caffael tir rheithorol blaenorol yn awtomatig. Ond mae ansicrwydd pwysicach hefyd. Nid yw'n glir a yw CRL yn dal i fod yn rhwymedigaeth ar reithorion lleyg (rhwymedigaeth swydd rheithor) neu a yw wedi dod yn faich uniongyrchol ar dir rheithorol.

Mae'r ansicrwydd hwn ynghylch natur CRL yn bwysig oherwydd bod yr LRA 2002 yn berthnasol i "fuddiannau sy'n effeithio ar ystadau mewn tir". Nid yw'n glir bod yr LRA 2002 yn berthnasol i rwymedigaethau personol ar ddeiliaid swyddi. Felly, os yw CRL yn dal i fod yn agwedd ar swydd rheithor, yna gellir dadlau nad yw'n gofrestradwy o dan yr LRA 2002 nac yn cael ei effeithio ganddi. Felly nid yw'n sicr a all prynwyr tir cofrestredig fod yn rhwym o hyd gan CRLau heb eu cofrestru, er gwaethaf y newid yn y gyfraith o 13 Hydref 2013

Rydym yn archwilio natur gyfreithiol CRL yn fanwl ym Mhennod 5 o'r papur ymgynghori.

Darperir crynodeb o'n dadansoddiad ym mharagraffau 6.6 i 6.12 o Bennod 6.

## Ein Diwygiad Arfaethedig

Ym Mhenodau 6 a 7 o'r papur ymgynghori, rydym yn nodi cynigion dros dro i ddiwygio Deddf Cofrestru Tir 2002. Rydym am grisialu mai dim ond os yw wedi'i nodi yn erbyn y teitl i'r tir y bydd prynwr tir cofrestredig yn rhwym i CRL. Rydym hefyd am grisialu effaith cofrestru cyntaf ystad heb ei chofrestru mewn tir ar CRL.

Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r gwelliant i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 fod yn gymwys yn ôl-weithredol, gan sicrhau bod y gwelliant yn gymwys i unrhyw drosglwyddiadau o ystadau cofrestredig neu gofrestriadau cyntaf o ystadau heb eu cofrestru sydd wedi digwydd ers 13 Hydref 2013.

Ein nod yw rhoi terfyn ar unrhyw amheuaeth sy'n bodoli ynghylch effaith y drefn gofrestru tir ar CRL drwy wneud yn siŵr ei bod yn gwneud yr hyn a ddeallwyd iddi ei wneud yn 2003.

## Atebolrwydd Atgyweirio Cangell yng Nghymru

Rydym yn awyddus i glywed gan unrhyw ymgyngoreion yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i CRL neu sydd â budd CRL. Daeth Deddf Eglwys Cymru 1914 â chymhwyso cyfraith eglwysig yng Nghymru i ben. Er bod Deddf 1914 wedi cadw rhai mathau o CRL, mae'n ymddangos i ni fod cwmpas CRL yng Nghymru wedi'i leihau'n sylweddol. Felly, byddem yn croesawu gwybodaeth am faint unrhyw rwymedigaethau sy'n dal i fodoli.

Rydym yn trafod CRL yng Nghymru ym Mhennod 4.

## Beth ydyn ni eisiau ei wybod gennych chi

Rydym yn ceisio barn ar ein cynigion dros dro ac wedi gofyn nifer o gwestiynau ym Mhenodau 6 i 8 o'n papur ymgynghori. Yn bennaf, rydym am glywed barn ymgyngoreion ynghylch a fydd ein cynigion yn creu mwy o sicrwydd yn y gyfraith sy'n llywodraethu CRL. Yn Atodiad 3 i'r papur ymgynghori rydym wedi gosod allan cymal y gallai'r Senedd ei ddeddfu i roi'r newid yn y gyfraith yr ydym wedi'i chynnig ar waith. Byddem yn croesawu barn ar hynny hefyd.

Rydym yn gwahodd pob ymgynghorai i roi gwybodaeth i ni am unrhyw brofiadau neu gysylltiadau y gallent fod wedi'u cael gyda CRL, neu unrhyw faterion sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag ef.

## Ôl-nodiadau

1. (2001) 81 P. & C.R. 14; [2001] EWCA Civ 713; [2003] UKHL 37; [2007] C.L.Y. 1082.
2. Yn Saesneg, mae'r Deddfau Amgáu yn defnyddio'r sillafiad hen-ffasiwn "Inclosure", yn hytrach na'r "Enclosure" modern.
3. (2001) Law Com No 271.
4. [2001] EWCA Civ 713.
5. [2003] UKHL 37.
6. Y Ddeddf Cofrestru Tir 2002 (Darpariaethau Trosiannol) (No 2) Gorchymyn 2003 (SI 2003/2341).
7. *Chivers & Sons Ltd v Air Ministry* [1955] Ch. 585.
8. Yn dilyn *Wickhambrook Parochial Church Council v Croxford* [1935] 2 KB 417.

